# Diogelwch batris

Os caiff batris botwm eu llyncu, gallant achosi niwed difrifol neu farwolaeth. Gallant hefyd achosi anafiadau sylweddol os byddant yn mynd yn sownd yn y trwyn neu'r glust.

**Os byddwch yn amau bod eich plentyn neu berthynas wedi llyncu batri botwm:**

- Ewch â'r unigolyn yn syth i'ch adran Damweiniau ac Achosion Brys agosaf neu ffoniwch 999 am ambiwlans.
- Dywedwch wrth staff yr ysbyty eich bod yn meddwl bod eich plentyn/perthynas wedi llyncu batri botwm.
- Ewch â batri tebyg a'r deunydd pecynnu gyda chi. Bydd hyn yn helpu'r meddyg i adnabod y math o fatri a gafodd ei lyncu ac yn ei gwneud hi'n haws trin yr unigolyn.
- Peidiwch â gadael i'ch plentyn/perthynas fwyta nac yfed dim byd.
- Peidiwch â'i orfodi i daflu i fyny.
- Rhaid i chi fynd i'r adran Damweiniau ac Achosion Brys hyd yn oed os nad oes gan eich plentyn/perthynas symptomau.

**Cadwch fatris cymhorthion clyw yn ddiogel:**

- Cadwch fatris newydd/sbâr yn eu deunydd pecynnu pothellog gwreiddiol mewn cynhwysydd wedi'i selio. Cadwch nhw allan o olwg a chyrraedd plant ac oedolion agored i niwed.
- Wrth agor y pecyn batris, gofalwch nad ydynt yn cwympo ar y llawr.
- Ailgylchwch fatris yn ddiogel a chyn gynted â phosibl.
- Mae batris wedi cael eu camgymryd am dabledi o bryd i'w gilydd. Felly, dylai cleifion edrych yn ofalus ar eu meddyginiaeth cyn llyncu unrhyw dabledi, a dylid cadw batris mewn lle gwahanol i feddyginiaethau.
- Cadwch gymhorthion clyw (hyd yn oed y rhai â chloeon batris diogel rhag plant arnynt) allan o olwg a chyrraedd plant bach ac oedolion agored i niwed pan na fyddant yn cael eu defnyddio.

I gael rhagor o gymorth, sganiwch y cod QR neu ewch i'n porth cymorth i gleifion yn: **danalogic.co.uk/patient-portal**

Y dewis cywir ar gyfer y GIG

danalogic GN

UK 08.39 B 9.2022